

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

### DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014

#### Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sy'n cwmpasu gwahanol

#### Gysgodfannau a Safleoedd Bysiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor") drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 60, 63, 66, 67, 68, a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol

1. Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 | 7 | 2022 a bydd yn cael effaith am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny oni bai ei fod yn cael ei amrywio neu ei ryddhau drwy orchymynion pellach gan y Cyngor.
2. Mae'r Gorchymyn yn ymwneud â'r cysgodfannau a safleoedd bysiau sydd wedi'u diffinio'n goch ar y mapiau atodedig (y cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel yr Ardaloedd Cyfyngedig), lle cyfeirir at restr ohonynt yn yr Atodien i'r Gorchymyn hwn.

#### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Gwneir y Gorchymyn oherwydd bod y Cyngor yn fodlon ar sail resymol bod gweithgareddau yn yr Ardaloedd Cyfyngedig yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd gweithgareddau'n cael y fath effaith, a bod yr effaith sydd, neu a fydd, o natur ddi-baid neu barhaus ac mae, neu bydd, yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfngiadau a osodir gan y Gorchymyn. Mae'r gweithgareddau yn yr Ardaloedd Cyfyngedig, sydd wedi cael eu cynnal neu'n debygol o gael eu cynnal, ac wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol, yn cynnwys:
  - difrod i eiddo,
  - ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - yfed alcohol yn gyhoeddus.

- 3.2 Wrth wneud y Gorchymyn hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Prif Gwnstabl, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Aelodau Etholedig, y Cyngor Tref a Chymunedol, a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol.

#### 4. DIFFINIADAU

- 4.1 ysty "Person(au) Awdurdodedig" yw person a awdurdodir at ddibenion Adran 63 a 68 o'r Ddeddf gan y Cyngor.

#### 5. CYFYNGIADAU A GOFYNION

- 5.1 Effaith y Gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau a'r gofynion canlynol o fewn unrhyw ran o'r Ardaloedd Cyfyngedig.

- 5.2 Ni chaiff neb loetran yn yr Ardaloedd Cyfyngedig oni bai eu bod yn aros am

drafnidiaeth gyhoeddus neu'n aros i gwrdd â rhywun sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- 5.3 Ni chaiff neb aros yn yr Ardaloedd Cyfyngedig os gofynnir yn rhesymol iddo adael gan berson neu gwnstabl awdurdodedig.
  - 5.4 Ni chaiff unrhyw berson ymddwyn mewn modd afreolaidd, anweddus neu sarhaus.
  - 5.5 Ni chaiff unrhyw un niweidio unrhyw ran o'r Ardaloedd Cyfyngedig.
  - 5.6 Ni chaiff unrhyw un feddu ar eitem a allai fod yn beryglus. . Eitem a allai fod yn beryglus yw unrhyw eitem, y mae person neu gwnstabl awdurdodedig yn credu'n rhesymol y gellir ei defnyddio i aflonyddu, dychryn neu beri gofid i unrhyw berson neu ddifrod i unrhyw eiddo.
  - 5.7 Ni chaiff unrhyw un rwystro nac atal person neu gwnstabl awdurdodedig rhag gweithredu ei ddyletswydd.
  - 5.8 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig feddu ar baraffernalia ar gyfer defnyddio cyffuriau rheoledig.
  - 5.9 Rhaid i unrhyw berson a amheur yn rhesymol, gan berson neu gwnstabl awdurdodedig, o dorri unrhyw un o'r gwaharddiadau neu'r gofynion a nodir yn y Gorchymyn hwn, ddarparu ei enw a'i gyfeiriad pan ofynnir iddo wneud hynny gan y person neu gwnstabl awdurdodedig hwnnw.
  - 5.10 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig yfed alcohol, pan ofynnir iddo beidio â gwneud hynny gan berson neu gwnstabl awdurdodedig.
  - 5.11 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig feddu ar gynhwysydd agored o alcohol.
6. Mae adran 67 o'r Ddeddf yn gymwys i'r gwaharddiadau a'r gofynion a nodir ym mharagraff 5.2 i 5.9 o'r Gorchymyn hwn sef:
    - (1) Mae'n drosedd i berson heb esgus rhesymol-
      - (a) Gwneud unrhyw beth y gwaherddir y person rhag ei wneud gan baragraffau 5.2 i 5.9 o'r Gorchymyn hwn, neu
      - (b) Methu â chydymffurfio â gofyniad y mae person yn ddarostyngedig iddo o dan baragraffau 5.2 i 5.9 o'r Gorchymyn hwn,
    - (2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar golfern ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
    - (3) Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan yr adran hon drwy fethu â chydymffurfio â gwaharddiad neu ofyniad nad oedd gan yr awdurdod lleol bŵer i'w gynnwys yn y gorchymyn diogelu mannau agored cyhoeddus
    - (4) Nid yw defnyddio alcohol yn groes i orchymyn diogelu mannau agored cyhoeddus yn drosedd o dan yr adran hon (ond gweler adran 7 isod)

7. Mae adran 63 o'r Ddeddf yn gymwys i'r gwaharddiadau a nodir ym mharagraffau 5.10 a 5.11 o'r Gorchymyn hwn sef pan fo cwnstabl neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol bod person:

- (a) Yn defnyddio alcohol neu wedi bod yn yfed alcohol yn groes i waharddiadau 5.10 a/neu 5.11 o'r gorchymyn hwn; neu'n bwriadu yfed alcohol yn groes i waharddiad 5.10 a/neu 5.11 o'r gorchymyn hwn.

Gall y cwnstabl neu'r person awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw:

- (b) Peidio ag yfed alcohol, nac unrhyw beth y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol;
- (c) Ildio unrhyw beth ym meddiant y person hwnnw sydd yn, neu y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn, alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol

Mae'n drosedd i berson, heb esgus rhesymol, fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan gwnstabl neu berson awdurdodedig o dan adran 63.

Mae person sy'n euog o drosedd yn agored ar golffarn yn y Llys Ynadon i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

## 8. COSB BENODEDIG

Caiff cwnstabl neu berson awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'n credu ei fod wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan y Gorchymyn hwn. Bydd gan berson sy'n cael hysbysiad cosb benodedig hyd at 14 diwrnod i dalu'r gosb benodedig o £100.00 (neu swm gostyngol o £75 os caiff ei dalu o fewn 7 diwrnod)

Bydd methu â thalu'r gosb benodedig yn arwain at gyfeirio'r mater i'w erlyn.

## 9. APELIADAU


Rhaid i unrhyw her i'r Gorchymyn hwn gael ei gwneud drwy wneud cais i'r Uchel Lys gan berson â buddiant, o fewn y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y gorchymyn. 'Person â buddiant' yw rhywun sy'n byw, sy'n gweithio'n rheolaidd o fewn, neu sy'n ymweld â'r Ardaloedd Cyfyngedig. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r grym i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan fydd Gorchymyn yn cael ei amrywio gan y Cyngor.

Gall personau sydd â buddiant herio diliysrwydd y gorchymyn hwn ar ddwy sail:

- nad oedd gan y Cyngor bŵer i wneud y Gorchymyn na chynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol
- neu na chydymffurfiwyd â gofyniad y ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn.

## **ATODLEN**

- a. Chartist Way, ger Frost Place, Coed Duon
- b. Chartist Way, Gibbs Close, Coed Duon
- c. Cefn-y-pant, Crossways, Trecelyn
- d. Twynyffald Road, Cefn Fforest, Coed Duon
- e. Ysgol Gyfun Trecelyn, Trecelyn
- f. Tafarn The Crown, Bryn Road, Pontllan-fraith, Coed Duon
- g. Sgwâr Abertridwr, Abertridwr, Caerfili
- h. Cylch Penllwyn, Edge Hill, Pontllan-fraith, Coed Duon
- i. Pen-y-Dre, Rhymni
- j. Glan-y-nant, Rhymni
- k. Heol Aneurin, Pen-yr-heol, Caerfili



OS Products: © 100025372. 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, f:250000.

Image Layers: © 2006 produced by COWI A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.

© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5,

© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),

© BlomPictometry 2006.

## **Chartist Way, Gibbs Close, Blackwood**


1:500



OS Products © 100025372. 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000.

Image Layers: © 2006 produced by COWI A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.

© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© The Authors - see Terms & Conditions - 2012




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000.

Image Layers: © 2006 produced by COWAIS for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.

© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5,

© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),

© BdnPicometry 2008.




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,  
Image Layers: © 2006 produced by COWI AIS for

the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.

© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5,

© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),

© BionPicometry 2008.




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,

Image Layers: © 2008 produced by COWA/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.


© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5.

© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991).

© BimPicometry 2008.




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,  
Image Layers: © 2006 produced by COWI AS for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Communities,  
© Geoinformation Group 1946, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BiotPhotometry 2008.




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,

Image Layers: © 2006 produced by COW A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.

© Geoinformation Group 1948, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BlomPictometry 2008.




OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000.  
Image Layers: © 2006 produced by COWI A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside,  
© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BlomPictureNet 2006.



OS Products: © 100025372, 2015. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000.  
Image Layers: © 2006 produced by CCW A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.  
© GeoInformation Group 1948, 2001, 2004-5.  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BlomPictometry 2008.

Glan-y-Nant, Rhymney


1:500



OS Products: © 100025372, 2015, MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,  
Image Layers: © 2006 produced by CCW A/S for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.  
© Geoinformation Group 1948, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BlomPictometry 2008.

Heol Aneurin, Penyrheol, Caerphilly

1:500



OS Products: © 100125372, 2016. MasterMap™, 1:10000, 1:25000, 1:50000, 1:250000,  
Image Layers: © 2006 produced by COWAIS for  
the Welsh Assembly Government's Department for Environment, Planning and Countryside.  
© Geoinformation Group 1948, 2001, 2004-5,  
© The Standing Conference on Regional Policy in South Wales (1991),  
© BionPictometry 2008.

Dyddiwyd y 21 o 17 2022

Gosodwyd Sêl Gyffredin  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yma,  
ym mhresenoldeb

Y Swyddog Awdurdodedig



